

Taliadau diswyddo i Aelodau o'r Senedd

23 Mawrth 2021

Cais am wybodaeth

Diolch am eich cais, a ddaeth i law ar 3 Mawrth, pan wnaethoch ofyn:

Hello, further to a phone call today I was advised to e-mail you and request under the Freedom of Information Act

- 1. all the Information you have on the amount's paid in severance payments to all Senedd Members retiring or voted out in the upcoming elections May 6th, 2021.*
- 2. Could you please also provide annual Payments made to Senedd Members? I know the basic from May 2021 their BASE salary increases to £69,272? But could you let me know how much the ADDITIONAL salary will bring the total payments to for each member? Obviously different rates for different positions within the Senedd?*
- 3. Could you please also provide any additional payments made for pensions etc?*
- 4. Can you then please give me information on the cost for Individual SM's allowances for Members' Business Support team's 2019-2020? and information of Individual members' expenses claims for 2019-2020?*

Gweler ein hymateb i'ch cais isod.

Senedd Cymru
Bae Caerdydd
Caerdydd, CF99 1SN

Welsh Parliament
Bae Caerdydd
Cardiff, CF99 1SN
Ffôn/Tel: 0300 200 6224

E-bost/Email: Ceisiadau-gwybodaeth@senedd.cymru
Information-request@senedd.wales

1. Ni wnaed unrhyw daliadau mewn perthynas â'ch cais.
2. Mae'r rheolau am yr hyn y mae gan Aelodau o'r Senedd yr hawl i wneud cais amdano i'w cael yn y '**Penderfyniad**'.
Mae paragraff 3.1.4 (tudalen 15) yn rhestru'r cyflog blynyddol ychwanegol y mae gan Aelodau sydd â rolau ychwanegol yr hawl i'w dderbyn.
3. Mae'r Senedd yn cadw gwybodaeth sy'n ymwneud â Chynllun Pensiwn yr Aelodau ar ran Ymddiriedolwyr y Cynllun hwnnw.

O dan adran 3(2) o'r Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth: *'information is held by a public authority if-*

(a) it is held by the authority, otherwise than on behalf of another person'.

Felly, ni ellir ystyried bod gwybodaeth a gedwir gan y Senedd ar ran person arall (ar ran yr Ymddiriedolwyr yn yr achos hwn) wedi'i chadw gan y Senedd at ddibenion y Ddeddf. Yn yr amgylchiadau hyn, ni all y Senedd ddatgelu'r wybodaeth hon.

Os hoffech wneud cais i'r wybodaeth nad yw wedi'i chyhoeddi eisoes gael ei datgelu, efallai y byddwch yn dymuno cysylltu â'r Ymddiriedolwyr yn uniongyrchol drwy'r cyfeiriad a ganlyn. Fodd bynnag, dylid cofio nad yw'r Ymddiriedolwyr yn 'awdurdod cyhoeddus' o dan y Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth, felly nid ydynt o dan unrhyw rwymedigaeth gyfreithiol i gydymffurfio â cheisiadau o'r fath.

Ysgrifennydd y Cynllun
Cynllun Pensiwn Aelodau Senedd Cymru
d/o Senedd Cymru
Bae Caerdydd
Caerdydd
CF99 1NA
Neu drwy e-bost at Donna.davies@senedd.cymru

4. Mae'r rheolau sy'n ymwneud â'r eitemau y mae Aelodau o'r Senedd yn gallu gwneud hawliadau yn eu cylch wedi'u cynnwys yn y '**Penderfyniad**', ac mae manylion yr holl dreuliau yn cael eu cyhoeddi ar ein **cronfa ddata treuliau**.

Yn gywir

Rheolwr Rhyddid Gwybodaeth
Senedd Cymru

Mae'ch cais wedi'i ystyried yn unol â'r egwyddorion a nodir yn y **Cod Ymarfer ar Ganiatáu i'r Cyhoedd Wedd Gwybodaeth**. Mae croeso ichi gysylltu â mi os oes gennych unrhyw gwestiynau am yr ymateb hwn. Os ydych yn teimlo bod gennych achos i gwyno, dilynwch y canllawiau isod.

A oes gennych achos i bryderu neu i gwyno ynghylch yr ymateb a gawsoch i'ch cais?

Os ydych yn anfodlon ar sut y mae Senedd Cymru wedi ymdrin â'ch cais, gallwch ofyn am adolygiad mewnol o fewn 40 diwrnod gwaith i ddyddiad yr ymateb hwn. Dylid cyfeirio ceisiadau am adolygiad mewnol at y Rheolwr Rhyddid Gwybodaeth drwy ddefnyddio'r cyfeiriad e-bost a ganlyn:

ceisiadau-gwybodaeth@senedd.cymru neu'n ysgrifenedig i

Senedd Cymru
Llywodraethu a Sicrwydd
Bae Caerdydd
Caerdydd
CF99 1SN

Os nad ydych yn fodlon ar ganlyniad yr adolygiad mewnol, mae'r hawl gennych i wneud cais uniongyrchol i'r Comisiynydd Gwybodaeth am benderfyniad. Gellir cysylltu â Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth yn:

Information Commissioner's Office
Wycliffe House
Water Lane
Wilmslow
Cheshire
SK9 5AF